Annwyl Gwsmer

**Gwasanaeth Symudol ac Allgymorth Cricieth**

**Newidiadau i Wasanaethau Symudol ac Allgymorth**

Mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith o ganghennau i sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod ein cyllid ac adnoddau yn cael eu defnyddio er mwyn cynnig y budd gorau a gwasanaethau cynaliadwy i'n holl gwsmeriaid; bu'r adolygiad yn archwilio'r rhwydwaith yn fanwl iawn ar lefel leol, gan ddadansoddi gofynion cwsmeriaid a hygyrchedd cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Cafodd y gwasanaethau Symudol ac Allgymorth sy'n cael eu darparu gan y postfeistr yn Swyddfa Bost Cricieth eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.

Fel canlyniad, am nad oes llawer o ddefnydd gan gwsmeriaid mewn rhai lleoliadau, rydym wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i'r gwasanaethau ac oriau agor er mwyn gwneud yn siŵr y gallant ddal i fod yn gynaliadwy. Yn anffodus, bydd rhaid i rai gwasanaethau ddod i ben am mai ychydig iawn o gwsmeriaid sy'n eu defnyddio. Fodd bynnag, fel rhan o'n hadolygiad parhaus o'r rhwydwaith, byddwn yn cadw llygad ar yr ardal leol ac yn ystyried darparu gwasanaethau ychwanegol, pe bai eu hangen.

Bydd y gwasanaeth Allgymorth presennol sy'n cael ei redeg o Ganolfan Gymuned Tal-y-sarn, Heol yr Orsaf, ,Tal-y-sarn, Caernarfon, LL54 6HL yn dod i ben o ddydd Iau 17 Awst 2023 am 16:00, a byddwn yn cyflwyno gwasanaeth Symudol yn ei le. Bydd y gwasanaeth Symudol hwn yn cael ei redeg o'r maes parcio yn yr un lleoliad, sef Canolfan Gymuned Tal-y-sarn, gydag oriau agor newydd, gan ddechrau o ddydd Mawrth 22 Awst 2023 am 10:45. Byddwn yn gosod posteri yn lleol i roi gwybod i gwsmeriaid am y newid arfaethedig.

Am ein bod yn awyddus i wneud y newid i'r gymuned yn Nhal-y-sarn cyn gynted â phosibl, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliad newydd a pha mor hawdd yw cyrraedd yno?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am y dyddiau a'r oriau agor?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan 23 Awst 2023. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Mae manylion am y newid i'r gwasanaeth yn Nhal-y-sarn ar ddiwedd y llythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu'ch sylwadau, byddwch cystal â mynd i'n Canolfan Ymgynghori trwy postofficeviews.co.uk. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgysylltiad a'r gwasanaeth hwn, naill ai drwy enw'r gwasanaeth, y cod post neu'r cod cangen unigryw **164604.**

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn lleol a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt.

Bydd rhai gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu rhedeg gan Swyddfa Bost Cricieth hefyd yn newid.

Bydd gwasanaeth Symudol Llithfaen, sydd ar hyn o bryd yn cael ei redeg o faes parcio Tafarn Y Fic , gyferbyn â thafarn y pentref, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA, yn cael ei redeg nawr o leoliad newydd, sef wrth ymyl y ffordd nesaf at Dafarn Y Fic,  Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA, gydag oriau agor newydd, o ddydd Mercher 23 Awst 2023 am 10:30.

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Bydd newidiadau i oriau agor y gwasanaethau Allgymorth ym Morfa Bychan, Sarn, Chwilog, Talsarnau, Llanfair a Llanbedr, ynghyd â'r gwasanaethau Symudol yn Efailnewydd, Llanaelhaearn, Pant-glas, Clynnog Fawr, Ffordd Aber-erch, Minffordd, Borth-y-gest, Garndolbenmaen, Y Fron, Rhosgadfan, Llangybi, Gellilydan, Ffestiniog, Nasareth, Llanfrothen, ac Edern. Daw'r newidiadau hyn i rym o ddydd Llun 21 Awst 2023.

Mae'n ddrwg gennym roi gwybod i chi y bydd y gwasanaethau Symudol yn Llanystumdwy, Carmel, Llanllyfni a Morfa Nefyn yn dod i ben o ddydd Llun 21 Awst 2023, oherwydd prinder cwsmeriaid.

Mae manylion am y newidiadau i wasanaethau Symudol ac Allgymorth Swyddfa'r Post ar ddiwedd y llythyr hwn. Hefyd, caiff posteri eu gosod yn lleol fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newidiadau.

Rydym yn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod oherwydd hyn. Gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gyfleusterau Swyddfa'r Post eraill sy'n gyfleus. Mae'r manylion am wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad ohono ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Os bydd rhaid newid y dyddiadau am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r newid rydym yn ei wneud.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments
**Dyna'r cyfan sydd raid ichi ychwanegu at eich amlen er mwyn iddo ein**

Os hoffech roi eich barn yn y fan a'r lle nawr – sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR, gallwch gael hyd i un yn eich stôr apiau

Mae eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion a ddanfonir trwy Radbost gael eu postio mewn digon o amser i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau.**
**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn**
**www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Newidiadau i'r Gwasanaeth Allgymorth yn: Tal-y-sarn**
**Yn dod i rym o Ddydd Mawrth 22 Awst 2023**

**Lleoliad y Gwasanaeth Allgymorth presennol yn Nhal-y-sarn**
**Y Ganolfan Gymuned, Heol yr Orsaf, Tal-y-sarn, Caernarfon, LL54 6HL**

**Oriau agor cyfredol y gwasanaeth Allgymorth**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:00 – 16:00 |
| Dydd Mawrth | 13:00 – 16:00 |
| Dydd Mercher | 13:00 – 16:00 |
| Dydd Iau | 13:00 – 16:00 |

**Y gwasanaeth Symudol newydd yn Nhal-y-sarn:**
**Yn y Maes Parcio**
**Canolfan Gymuned Tal-y-sarn**
**Heol yr Orsaf**
**Tal-y-sarn**
**Caernarfon**
**LL54 6HL**

**Oriau Agor newydd y gwasanaeth Symudol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:45 – 11:45 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Lleolir y gwasanaeth Symudol hwn ym Maes Parcio Canolfan Gymuned Tal-y-sarn.
Mae modd parcio ym maes parcio Canolfan Gymuned Tal-y-sarn.

**Newidiadau i’r Gwasanaeth Symudol yn: Llithfaen**
**Yn dod i rym o ddydd Mercher 23 Awst 2023**

**Y gwasanaeth Symudol cyfredol yn Llithfaen**
**Maes Parcio Tafarn y Fic, Gyferbyn â Thafarn y Pentref, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA**

**Oriau Agor presennol y gwasanaeth Symudol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:35 – 13:35 |
| Dydd Mercher | 15:00 – 16:00 |
| Dydd Iau | 12:30 – 13:30 |
| Dydd Gwener | 15:30 – 16:00 |

**Y gwasanaeth Symudol newydd yn Llithfaen**
**Ymyl y ffordd wrth ymyl Tafarn Y Fic**
**Llithfaen**
**Pwllheli**
**LL53 6PA**

**Oriau Agor newydd y gwasanaeth Symudol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 10:30 – 11:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i’r cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anableddau.
Y tu mewn, bydd dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Lleolir y gwasanaeth Symudol hwn wrth ymyl y ffordd ger Tafarn y Fic.
Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw.

**Gwasanaethau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Llanystumdwy:**
**Maes Parcio Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy, Cricieth, LL52 0SF**

---

**Swyddfa Bost Cricieth**
Y Stryd Fawr
Cricieth
LL52 0BU

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Gwener | 08:30 – 17:30 |
| Sadwrn a Sul | Ar Gau |

**Gwasanaethau**
Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd â'r Loteri Genedlaethol, Arian Teithio mewn Ewros a Doleri Ar Gais, ond dim Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a ramp wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.4 milltir o wasanaeth Symudol Llanystumdwy, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae yna barcio am amser cyfyngedig wrth ymyl y ffordd gerllaw.
Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng Symudol Llanystumdwy a’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 75 metr i ffwrdd.

---

**Swyddfa Bost Y Ffôr**
Siop Londis Gwynfa
Pwllheli
LL53 6UR

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun a Mawrth | 09:00 – 17:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 – 12:00 |
| Iau a Gwener | 09:00 – 17:00 |
| Sadwrn a Sul | Ar Gau |

**Gwasanaethau**
Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd â'r Loteri Genedlaethol, ond dim Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5.4 milltir o wasanaeth Symudol Llanystumdwy, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio ar y cwrt blaen y tu allan i'r gangen. Mae modd parcio hefyd wrth ymyl y ffordd gerllaw.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Gwasanaethau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Carmel:**
**Neuadd Y Pentref, Carmel, Caernarfon, LL54 7AA**

---

**Swyddfa Bost Pen-y-groes**
3-5 Y Stryd Fawr
Pen-y-groes
Caernarfon
LL54 6PL

**Gwasanaethau**
Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd â'r Loteri Genedlaethol, Arian Teithio mewn Ewros a Doleri Ar Gais, ond nid Yswiriant Teithio Ar Gais

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Gwener | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:00 – 12:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa.
Y tu mewn mae yna ddolen glyw.

**Cyrraedd yno**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 2.1 milltir o wasanaeth Symudol Pentre Carmel, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd ar y Stryd Fawr a gerllaw.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Swyddfa Bost Bontnewydd**
Ffordd Caernarfon
Bontnewydd
Caernarfon
LL54 7UN

**Gwasanaethau**
Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:00 – 22:00 |
| Dydd Sul | 08:00 – 22:00 |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 4 milltir o wasanaeth Symudol Pentre Carmel, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae yna faes parcio neilltuedig wrth ymyl y gangen.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Gwasanaethau eraill yn lle Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Llanllyfni:**
**Neuadd Goffa Llanllyfni, Llanllyfni, Caernarfon, LL54 6SG**

---

**Swyddfa Bost Pen-y-groes**
3-5 Y Stryd Fawr
Pen-y-groes
Caernarfon
LL54 6PL

**Gwasanaethau**
Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd â'r Loteri Genedlaethol, Arian Teithio mewn Ewros a Doleri Ar Gais, ond nid Yswiriant Teithio Ar Gais

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Gwener | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:00 – 12:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa.
Y tu mewn mae yna ddolen glyw.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.8 milltir o wasanaeth Symudol Pentre Llanllyfni, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd am gyfnod penodol ar hyd y Stryd Fawr a gerllaw.
Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng Symudol Llanystumdwy a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 120 metr i ffwrdd.

---

**Swyddfa Bost Bontnewydd**
Ffordd Caernarfon
Bontnewydd
Caernarfon
LL54 7UN

**Gwasanaethau**
Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau, ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:00 – 22:00 |
| Dydd Sul | 08:00 – 22:00 |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5.3 milltir o wasanaeth Symudol Pentre Llanllyfni, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae yna faes parcio neilltuedig wrth ymyl y gangen.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Gwasanaethau eraill yn lle gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Morfa Nefyn:**
**Canolfan Y Pentre, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, LL53 6BW**

---

**Swyddfa Bost Nefyn**
Y Stryd Fawr
Nefyn
Pwllheli
LL53 6HD

**Gwasanaethau**
Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ond nid Arian Teithio mewn Doleri.

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 09:00 – 12:00 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gwasanaeth hwn fynedfa wastad a drysau llydan awtomatig.
Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol hwn tua 1.3 milltir o wasanaeth Symudol Morfa Nefyn, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae maes parcio neilltuedig y tu allan i'r gangen, ynghyd â llefydd penodol i gwsmeriaid anabl.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

---

**Swyddfa Bost Tudweiliog**
Tudweiliog
Pwllheli
LL53 8NB

**Gwasanaethau**
Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau ac Arian Teithio mewn Ewros a Doleri Ar Gais.

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Gwener | 08:30 – 12:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:30 – 11:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a grisiau wrth y fynedfa.
Y tu mewn mae yna ddolen glyw.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol hwn tua 4 milltir o wasanaeth Symudol Morfa Nefyn, ar hyd tir amrywiol ei natur.
Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen a gerllaw iddi.
Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig ar gael rhwng gwasanaeth Symudol Morfa Nefyn a'r gangen Swyddfa'r Post hon. Mae'r arhosfan bysiau agosaf gyferbyn â'r gangen.

---

**Newidiadau i oriau agor y Gwasanaeth Allgymorth**
**Yn dod i rym o Ddydd Llun 21 Awst 2023**

**Manylion y newid i'r Gwasanaeth Allgymorth presennol: Morfa Bychan**

**Gwasanaeth Allgymorth Morfa Bychan,** Select Convenience Bargain Booze, Morfa Bychan, Porthmadog, LL49 9UY

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 10:30 – 12:30 |
| Dydd Mercher | 10:30 – 12:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:30 – 11:00 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaethau Allgymorth presennol: Sarn**

**Gwasanaeth Allgymorth Sarn,** Waterloo House, Sarn, Pwllheli, LL53 8DT

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:00 – 12:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:15 – 13:45 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Allgymorth presennol: Chwilog**

**Gwasanaeth Allgymorth Chwilog,** Neuadd Goffa Chwilog, Yr Heol Fawr, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SH

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:15 – 15:15 |
| Dydd Mercher | 13:15 – 15:15 |
| Dydd Gwener | 13:15 – 15:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 14:30 – 16:00 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Allgymorth presennol: Talsarnau**

**Gwasanaeth Allgymorth Talsarnau,** Neuadd y Pentref Talsarnau, Talsarnau**,** LL47 6TA

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:45 – 11:45 |
| Dydd Iau | 09:45 – 11:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:30 – 11:00 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Allgymorth presennol: Llanfair**

**Gwasanaeth Allgymorth Llanfair,** Y Neuadd Goffa, Llanfair, Harlech, LL46 2SA

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 12:15 – 13:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:30 – 12:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Llanbedr**

**Gwasanaeth Allgymorth Llanbedr,** Deli ac Ystafelloedd Te Wenallt, Llanbedr, LL45 2LD

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 09:30 – 11:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 13:00 – 14:00 |

**Newidiadau i oriau agor y gwasanaeth Symudol.**

**Yn dod i rym o Ddydd Llun 21 Awst 2023**

## Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Efailnewydd

**Gwasanaeth Symudol Efailnewydd,** Y Maes Parcio ger Lôn Boduan, Teras Bodegroes, Efailnewydd, Pwllheli, LL53 5TL

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 15:05 – 16:05 |
| Dydd Mercher | 16:15 – 17:00 |
| Dydd Iau | 11:10 – 12:10 |
| Dydd Gwener | 16:15 – 17:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 13:30 – 14:30 |

## Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Llanaelhaearn

**Gwasanaeth Symudol Llanaelhaearn,** Maes Parcio ger yr Ysgol, Llanaelhaearn, Caernarfon LL54 5AL

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:15 – 12:00 |
| Dydd Iau | 14:05 – 14:50 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 09:45 – 10:15 |

## Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Bryncir

**Gwasanaeth Symudol Bryncir,** Maes Parcio Tilestop, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9LX

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:00 – 09:45 |
| Dydd Iau | 16:15 – 17:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 15:15 – 16:00 |

## Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Pant-glas

**Gwasanaeth Symudol Pant-glas,** Drws Nesaf i'r Capel, Bro Nantcyll, Pant-glas, Garndolbenmaen, LL51 9DJ

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 11:30 – 12:15 |
| Dydd Gwener | 10:15 – 10:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:00 – 09:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Clynnog Fawr**

**Gwasanaeth Symudol Clynnog Fawr,** Caernarfon, LL54 5PB

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:15 – 11:00 |
| Dydd Iau | 15:00 – 15:45 |
| Dydd Gwener | 14:45 – 15:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:00 – 14:45 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Lôn Aber-erch**

**Gwasanaeth Symudol Lôn Aber-erch,** Lôn Aber-erch, Pwllheli, LL53 5LS

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 16:15 – 17:00 |
| Dydd Iau | 10:10 – 10:55 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 14:45 – 15:15 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Minffordd**

**Gwasanaeth Symudol Minffordd,** Minffordd, Penrhyndeudraeth, LL48 6HG

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15:15 – 16:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 – 09:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 10:45 – 11:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Borth-y-gest**

**Gwasanaeth Symudol Borth-y-gest,** Borth-y-gest, Porthmadog LL49 9UB

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 16:15 – 17:00 |
| Dydd Mercher | 10:00 – 11:00 |
| Dydd Gwener | 09:00 – 09:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 09:45 – 10:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Garndolbenmaen**

**Gwasanaeth Symudol Garndolbenmaen,** Y tu allan i Neuadd y Pentref Garndolbenmaen, Garndolbenmaen, LL51 9TX

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 10:00 – 10:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 15:45 – 16:15 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Y Fron**

**Gwasanaeth Symudol Y Fron,** Canolfan Y Fron, Y Fron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7BB

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 12:15 – 13:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:00 – 12:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Rhosgadfan**

**Gwasanaeth Symudol Rhosgadfan,** Y tu allan i Gapel Rhosgadfan, Rhosgadfan, Caernarfon**,** LL54 7ET

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 11:15 – 12:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:45 – 13:15 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Llangybi**

**Gwasanaeth Symudol Llangybi,** Cilfan Troed-y-garn, Llangybi, LL53 6DQ

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 15:25 – 16:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 15:45 – 16:45 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Gellilydan**

**Gwasanaeth Symudol Gellilydan,** Y Maes Parcio, Teras Minffordd, Gellilydan, Blaenau Ffestiniog, LL41 4EA

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:00 – 13:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:15 – 14:00 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Ffestiniog**

**Gwasanaeth Symudol Ffestiniog,** Y Maes Parcio oddi ar Ffordd Blaenau, Ffestiniog, Blaenau Ffestiniog, LL41 4LR

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:45 – 14:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 14:15 – 15:00 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Nasareth**

**Gwasanaeth Symudol Nasareth,** Nasareth, Caernarfon, LL54 6DW

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 12:25 – 13:10 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:45 – 10:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Llanfrothen**

**Gwasanaeth Symudol Llanfrothen,** Y tu allan i Siop Y Pentref, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth, LL48 6AX

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11:00 – 11:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11:45 – 12:30 |

**Manylion am y newid i'r Gwasanaeth Symudol presennol: Edern**

**Gwasanaeth Symudol Edern,** Ymyl y Ffordd wrth ymyl Capel Mawr, Lôn Gerddi, Edern, Pwllheli, LL53 8YS

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:00 – 14:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 12:00 – 12:45 |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**postofficeviews.co.ukcomments@postoffice.co.ukcomments@postoffice.co.uk**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn a uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.